**Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru**

**Dydd Mercher 6 Chwefror 2019**
**Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Cofnodion y Cyfarfod**

**Yn bresennol:**

**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| Andrew Jacobs | Llywodraeth Cymru – Pennaeth Cynhwysiant Ariannol, |

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Helene Hayes | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Lee Phillips | Gwasanaeth Cyngor Ariannol |
| Graham Roberts | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Jonathan Brenchley | Banc Barclays |
| Lisa Hayward | CLlLC |
| George Jones | Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Ryan Evans | Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru |
| Sean O'Neill | Plant yng Nghymru |
| Leanne Herberg | Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Maureen Howell | Dirprwy Gyfarwyddwr Dyfodol Ffyniannus |
| Paul Neave | Cynhwysiant Ariannol |
| JJ Costello | Cynhwysiant Ariannol |
| Charlotte Anscombe | Cynhwysiant Ariannol |
| Eryl Loring | Cynhwysiant Ariannol |
| Sian Williams | Ymchwil |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Liz Emmons | Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru |
| Selina Moyo | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| John Mason | Adran Addysg Llywodraeth Cymru |
| Sally Hunt | Is-adran Dyfodol Ffyniannus Llywodraeth Cymru |

## 1. Croeso, Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Chamau Gweithredu

1.1 Croesawodd Andrew Jacobs (AJ) yr aelodau a hefyd Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Dyfodol Ffyniannus Llywodraeth Cymru, a oedd yng nghyfarfod y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol am y tro cyntaf.

1.2 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 20 Medi 2018 yn gofnod cywir.

1.3 Camau Gweithredu – mae pob cam o'r cyfarfod diwethaf wedi'u cyflawni erbyn hyn. Mae'r camau sy'n ymwneud ag integreiddio Cyngor ar Ddyled ac Arian hefyd wedi'u cyflawni – mae'r ymgynghoriad wedi cau bellach ac mae gwerthusiad ar y gweill.

**Cam gweithredu:** Lee Phillips (LP) i ddosbarthu'r adroddiad gwerthuso pan fydd ar gael.

## 2. Diweddariad gan y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl

2.1 Rhoddodd LP ddiweddariad ar y datblygiadau diweddaraf. Sefydlwyd y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl ar 1 Hydref 2018 a daeth yn weithredol ar 1 Ionawr 2019 pan ddaeth y tri sefydliad dan sylw – Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Y Gwasanaeth Cynghori Pensiynau a Pension Wise, at ei gilydd o dan un faner. Mae staff yn parhau i weithio o dan enw eu sefydliad blaenorol wrth i'r Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl weithio ar enw newydd ar gyfer y Corff.

2.2 Cynhaliwyd Wythnos Siarad am Arian eleni rhwng 12 a 18 Tachwedd 2018 a bu nifer o ddigwyddiadau hyd a lled Cymru, gan gynnwys gwobrau Arian am Oes Youth Cymru yn y Senedd; a chynhaliodd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ddigwyddiad yng Nghastell Caerdydd i ddathlu cyflawniad gwaith gallu ariannol ledled Cymru. I gyd-fynd ag Wythnos Siarad am Arian, cyhoeddodd Cymdeithas Adeiladu'r Principality lyfr i blant â'r nod o addysgu pwysigrwydd addysg ariannol gan ddechrau'n ifanc.

2.3 Roedd digwyddiad Gwobrau Enillion Troseddau Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru hefyd yn llwyddiannus. Gwahoddodd LP Ryan Evans (RE) o'r Uned i ddarparu trosolwg:

Pan fo'r Uned yn erlyn ac yn collfarnu benthyciwr arian didrwydded, gall yr Uned atafaelu ei asedau a'i arian o dan y Ddeddf Enillion Troseddau. Rhoddir canran o arian y Ddeddf a gaiff ei gymryd oddi wrth fenthycwyr arian didrwydded yn ôl i gymunedau. Enillwyr gwobrau Stop Loan Sharks 2018 oedd:

- **Prosiect Cyhoeddi Cymdeithasol** – Cylchgrawn Quids in! Llyfryn dwyieithog 16 tudalen gydag eitem tudalen gyfan yn canolbwyntio ar fenthycwyr arian didrwydded ac astudiaeth achos ddiweddar. Mae'n annog dioddefwyr i gyflwyno'u hunain, trwy godi ymwybyddiaeth o'r Uned, ac yn tawelu meddyliau dioddefwyr ynghylch unrhyw ofnau sydd ganddynt ynglŷn â chyflwyno'u hunain. Bydd y llyfryn yn cyrraedd 10,000 o bobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Abertawe a 5000 arall yng Ngogledd Cymru.

- Cynhaliodd **Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf** ymgyrch gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o fenthyca arian yn anghyfreithlon yn y cyfnod cyn gwyliau'r Nadolig: "Peidiwch â chael eich brathu gan gost y Nadolig". Byddant hefyd yn creu deunyddiau addysgol dwyieithog y gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn, a bydd yn cynnal 8 sioe deithiol i godi ymwybyddiaeth o fenthycwyr arian didrwydded.

- Mae **Undeb Credyd Celtic** yn cynllunio ymgyrch dosbarthu taflenni gwybodaeth yn y cyfnod cyn Nadolig 2019, yn amlygu peryglon benthycwyr arian didrwydded wrth hyrwyddo'r Undeb Credyd. Bydd hyn yn cyrraedd 100,000 o aelwydydd ledled Castell Nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe.

- Bydd **Panel Atal Troseddu Afan Tawe Nedd** yn trefnu digwyddiadau calonogi/ymgysylltu ledled Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe. Byddant yn rhoi cyngor a deunydd darllen am ddim i gannoedd o bobl.

- **Dewis** – trefnodd yr elusen hon ddigwyddiad cynnwys cleientiaid ar gyfer pobl 16-25 oed sy'n byw mewn llety â chymorth. Cynhaliwyd taith i Winter Wonderland Caerdydd ochr yn ochr â sesiwn codi ymwybyddiaeth o fenthycwyr arian anghyfreithlon.

- Mae **Ysgol Idris Davies a Chartrefi Caerffili** yn datblygu ffilm fer ar beryglon benthyg arian yn anniogel. Bydd cyswllt agos rhwng y prosiect a'r cwricwlwm gallu ariannol sydd wedi ei gyfannu ar draws yr ysgol, a bydd hefyd yn cefnogi dysgwyr sy'n cyflawni Bagloriaeth Cymru Cyfnod Allweddol 4/5.

2.4 Siarad Dysgu Gwneud – mae gwerthusiad y prosiect rhianta Siarad Dysgu Gwneud ar gael ar-lein erbyn hyn. Mae canlyniadau'r gwerthusiad yn gadarnhaol iawn ac felly hefyd y canlyniadau eilaidd sy'n dangos yr effaith y mae'r prosiect wedi'i gael ar rieni. Bydd y prosiect yn cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2019 i ddarparu 2 sesiwn hyfforddi arall i ymarferwyr – un yn y Gogledd ac un yn y De. Yn ychwanegol at y digwyddiadau hyfforddi, bydd diwrnod ar gael ar gyfer gweithwyr cymunedol, caiff y dyddiadau eu cadarnhau yn fuan.

**Cam Gweithredu:** LP i ddosbarthu dyddiadau'r digwyddiadau hyfforddi Siarad Dysgu Gwneud pan fyddant ar gael.

2.5 Mae cyllidebau eto i'w pennu, ond yn y dyfodol, rhagwelir y bydd y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl yn gweithio gydag athrawon ysgol i ddatblygu deunyddiau gallu ariannol. Ar hyn o bryd, mae LP yn trafod gydag Adran Addysg Llywodraeth Cymru i weithredu hyn. Mae gwaith yn parhau hefyd ar y Fframwaith Ymarferwyr Cynghori, a fydd yn ystyried y ffordd orau o gefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes cynghori. Mae hyn yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Bydd y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl yn cynnal cyfres o Ddigwyddiadau Gwrando ledled Cymru yn ystod misoedd Ebrill a Mai a fydd yn holi ymarferwyr ynghylch eu disgwyliadau o'r corff newydd.

2.6 Ar hyn o bryd, ariennir y Fforymau Gallu Ariannol Rhanbarthol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, ond y gobaith yw y bydd y rhain yn parhau. Ychwanegodd AJ fod y Fforymau rhanbarthol wedi eu hariannu ar y cyd gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a Llywodraeth Cymru hyd yn hyn. Cydnabyddir gwerth y grwpiau hyn, felly yn amodol ar gytundeb Gweinidogol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn y cyllid ar gyfer y Fforymau fel cyfraniad ochr yn ochr â'r Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl.

2.7 Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi cynhyrchu fideo ar addysg ariannol i'w gynnwys ar flog Cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Erbyn hyn mae'r fideo wedi'i gymeradwyo a bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn fuan. Gofynnodd Jonathan Brenchley (JB) a fyddai unrhyw weithgareddau hybu ar y cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd â'i gyhoeddi; cadarnhaodd LP y bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cynhyrchu fersiwn ychydig yn hirach o'r fideo a bydd hwnnw'n cael ei hybu trwy ddefnyddio'r sianeli arferol.

**Cam gweithredu:** LP i ddosbarthu'r ddolen i'r fideo Addysg pan fydd ar gael.

2.8 Gofynnodd Helene Hayes (HH) a oedd unrhyw waith mapio wedi ei wneud yn dilyn y prosiect Siarad Dysgu Gwneud i fonitro a oedd rhieni wedi mynd ati i gael cyngor o unrhyw ddarpariaeth arall. Esboniodd LP nad oedd hynny wedi ei wneud oherwydd y broblem o gadw cysylltiad â'r cyfranogwyr – 12 mis ar ôl yr ymyrraeth, roedd y gwerthuswyr dim ond yn gallu ailgysylltu â'r rhai a oedd wedi cydsynio. Fodd bynnag, o'r rhai y cysylltwyd â nhw dywedodd 15% nad oeddent mewn gormod o ddyled mwyach.

2.9 Mae LP wedi diweddaru'r Map Polisi Gallu Ariannol i ddangos y newidiadau Gweinidogol diweddar, ac mae drafft ar gael pe hoffai aelodau ei weld.

## 3. Diweddariad Cyngor ar Bopeth – 'Help i Hawlio' Cymorth Cynhwysol

3.1 Darparodd HH drosolwg o'r sefyllfa bresennol. Yn dilyn y cyhoeddiad fis Hydref diwethaf, mae Cyngor ar Bopeth yn paratoi i ddarparu'r gwasanaeth newydd o fis Ebrill 2019 ymlaen ar hyn o bryd. Ariennir y gwasanaeth tan fis Mawrth 2020. Mae cynnydd yn parhau ac mae HH yn fodlon darparu diweddariadau pan fyddant ar gael. Ar hyn o bryd mae dros 175,000 o bobl yn defnyddio cyngor Credyd Cynhwysol a nod darpariaeth Help i Hawlio yw rhoi'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i bobl, sy'n dueddol o fod ar ddechrau'r broses o hawlio'r Credyd Cynhwysol.

3.2 Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn wahanol i hwnnw a ddarperir gan awdurdodau lleol, fodd bynnag bydd arferion da y ddarpariaeth bresennol yn cael eu hystyried wrth gyflwyno'r gwasanaeth. Ni fydd Help i Hawlio yn cynnwys mudo rheoledig – bydd y cymorth ar gael o fis Ebrill 2019 hyd at fis Mawrth 2020 a bydd y mudo rheoledig yn digwydd ar ôl y cyfnod hwn. Ni fydd pobl sy'n ceisio cyngor yn cael eu gwrthod, os nad yw Help i Hawlio yn iawn iddyn nhw, neu os ydyn nhw y tu hwnt i gwmpas gwasanaeth Help i Hawlio, bydd gwasanaethau Cyngor ar Bopeth lleol yn ceisio eu helpu trwy ddefnyddio ffynonellau eraill o gyllid. Bydd y gwasanaeth yn gyson ledled Cymru a Lloegr, ond bydd amrywiaethau lleol i adlewyrchu anghenion y gymuned a phartneriaethau lleol.

3.3 Bydd sawl ffordd o gael gafael ar y gwasanaeth, gellir gwneud atgyfeiriadau mewn unrhyw ffordd. Bydd cleientiaid yn gallu cael gafael ar gyngor drwy nifer o sianeli – wyneb yn wyneb, rhadffôn, sgwrs ar y we, ynghyd â gwybodaeth ar-lein – y nod yw cynnig cymorth mewn modd sy'n addas i'r unigolyn. Daw'r cyswllt cyntaf â'r unigolyn pan gaiff asesiad anghenion ei gynnal i benderfynu lefel y cymorth sydd ei hangen. Gall fod yn llaw ysgafn, gan rannu'r camau a'u galluogi i wneud eu cais eu hunain, neu gallai gynnwys cefnogaeth fwy dwys.

3.4 Bydd gwahanol opsiynau cymorth ar gael, e.e. e-byst i helpu sefydlu cyfrif, i lunio rhestrau – dangos tystiolaeth o gostau tai, costau gofal plant, incwm, neu gostau cysylltiedig, cymorth â threfniadau talu eraill a dangos y ffordd at gymorth mwy hirdymor fel y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl i bobl hawlio'r Credyd Cynhwysol ar-lein, ond gellir hefyd ei wneud drwy wasanaeth ffôn neu ymweliadau â'r cartref. Bydd pobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael gwybod am y sianeli eraill hyn. Hefyd, mae angen gwirio hunaniaeth, ni fydd Cyngor ar Bopeth yn gwirio hunaniaeth ond gall esbonio i gleientiaid sut i wirio eu hunaniaeth. Gallwn hefyd godi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol i'r landlord a sut i reoli taliadau misol.

3.5 Bydd y Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am yr hyn sydd ar gael gan y gwasanaeth Help i Hawlio a'r cymorth mwy hirdymor sydd ar gael. Bydd Cyngor ar Bopeth yn gweithio'n agos gyda Chanolfannau Byd Gwaith, awdurdodau lleol, ac ati i sicrhau bod yr holl asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi unigolyn.

3.6 Dechreuodd y rhaglenni treialu ym mis Tachwedd 2018, a dechreuodd rhagor ym mis Ionawr a mis Chwefror. Defnyddir dull profi a dysgu, gan ddewis gwahanol ardaloedd i brofi gwahanol elfennau o'r gwasanaeth. Er mai gwasanaeth penodol sy'n ymateb i anghenion hawlwyr Credyd Cynhwysol yw hyn, mae'n bwysig parhau â'r cymorth drwy gydol y broses nid yn unig ar ddechrau'r hawliad.

3.7 Bydd Help i Hawlio yng Nghymru yn cael ei reoli gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn genedlaethol ac nid gan wasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru. Fodd bynnag, mae gan y gwasanaethau Cyngor ar Bopeth rhanbarthol berthynas dda yn lleol eisoes, a bydd hyn yn parhau, mae swyddfeydd rhanbarthol yn ymwybodol eu bod yn gallu cysylltu â swyddfa Cyngor ar Bopeth Cymru os oes ganddynt unrhyw bryderon.

**Cam gweithredu:** HH i ddosbarthu rhagor o fanylion a dolen i adroddiad ar Help i Hawlio a gyhoeddwyd heddiw (6 Chwefror 2019).

3.8 Gofynnodd LP ynglŷn â staff yr awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaeth cymorth tebyg ac a oedd cyfle iddynt drosglwyddo i'r gwasanaeth newydd. Cadarnhaodd Lisa Hayward (LH) fod rhai aelodau staff ar gytundebau dros dro, felly byddant yn dod i derfyn naturiol, a bydd hyn, mewn rhai ardaloedd yn

gadael bwlch yn y ddarpariaeth tan fod y gwasanaeth newydd yn weithredol ym mis Ebrill.

3.9 Gofynnodd JJ Costello (JC) faint o hawlwyr y disgwylir eu cefnogi a pha gyfran ohonynt fyddai'n cysylltu â gwasanaeth cyngor am y tro cyntaf, mae'n bosibl y bydd cyflwyno Help i Hawlio yn annog pobl newydd i ddefnyddio'r sector cyngor. Nid oedd HH yn gallu ateb ar hyn o bryd ond bydd yn gwneud cais i'r data hyn gael eu monitro.

3.10 Dyfynnodd Graham Roberts (GR) yr ystadegau diweddaraf, sef bod yna 1.6 miliwn o hawlwyr newydd yn y DU ar hyn o bryd a 76,000 yng Nghymru. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 2 miliwn ym mis Mai a 3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, felly mae'n debygol y bydd nifer yr hawlwyr newydd yng Nghymru yn dyblu o fewn blwyddyn. Croesawodd hefyd y ddwy raglen dreialu yng Nghymru, sy'n cynnig y cyfle i brofi pa gleientiaid sy'n cael eu cefnogi yn barod i ddechrau arni ym mis Ebrill. Bydd yn allweddol nodi pwy fydd angen y cymorth Help i Hawlio neu a oes perygl o geisio helpu gormod o bobl.

3.11 Tynnodd Paul Neave (PN) sylw at y ffaith y byddai'r mudo naturiol i Gredyd Cynhwysol yn dod ag aelwydydd â phroblemau lles cymdeithasol i gysylltiad â'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, efallai am y tro cyntaf, felly bydd yn ddiddorol monitro unrhyw gynnydd mewn dyled ac unrhyw faterion cysylltiedig eraill y bydd gan yr aelwydydd hyn. Cadarnhaodd HH y byddai'r data hyn yn cael eu casglu.

3.12 Gwnaeth Maureen Howell (MH) sylw ar sut y mae gwasanaethau cymorth yn wahanol yng Nghymru o'u cymharu â gweddill y DU a mantais fforymau fel hyn i helpu i nodi'r ffordd orau o roi cymorth i'r rhai sydd ei angen yn wirioneddol. Gofynnodd i HH sut y gallem ddefnyddio adborth gan Cyngor ar Bopeth ar lefel genedlaethol yn y ffordd orau i Gymru.

3.13 Esboniodd HH er y bydd y data'n cael eu casglu'n ganolog, bydd angen dadansoddiad penodol ar gyfer Cymru. Cytunodd GR mai penderfyniad Cyngor ar Bopeth Cymru fyddai pa wybodaeth y dylid ei chasglu i Gymru, ni fydd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ddata sy'n benodol i Gymru, dim ond Cymru a Lloegr yn gyfunol, yn wahanol i'r Alban sydd â'i data ei hun oherwydd ei bod wedi'i datganoli i Lywodraeth yr Alban.

3.14 Dywedodd MH wrth y cyfarfod fod Prif Weinidog Cymru wedi gwneud nifer o ddatganiadau yn ddiweddar yn nodi y bydd yn archwilio'r achos dros ddatganoli'r weinyddiaeth ar gyfer agweddau penodol ar Ddiwygio Budd-daliadau i Gymru, felly rydym yn gweld y Prif Weinidog yn newid polisi.

3.15 Gofynnodd LH a oedd unrhyw ddata gwerthuso ar y Gronfa Cymorth Dewisol a oedd yn dangos y cysylltiad rhwng Credyd Cynhwysol a cheisiadau am gymorth. Cadarnhaodd Charlotte Anscombe (CA) fod yr wybodaeth hon yn cael

ei chasglu a bod y galw wedi cynyddu'n sylweddol ers cyflwyno Credyd Cynhwysol. Gofynnodd LH a fyddai modd i'r ystadegau hyn fod ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf a hefyd a yw'r niferoedd wedi cynyddu yn yr ardaloedd lle mae Credyd Cynhwysol wedi ei gyflwyno. Cytunodd AJ fod cysylltiadau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r polisi i gynnwys pobl sydd wedi'u cymeradwyo. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r gyllideb i ymdopi â'r cynnydd yn y galw, sydd wedi'i gysylltu yn rhannol â'r Credyd Cynhwysol.

**Cam gweithredu:** Cytunwyd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn paratoi ystadegau allweddol ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol oherwydd materion Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau lles eraill erbyn y cyfarfod nesaf.

## 4. Diweddariad Llywodraeth Cymru

4.1 Cyfeiriodd AJ at y newidiadau diweddar yn y Cabinet a chadarnhaodd fod maes gwaith yr Uned Cynhwysiant Ariannol wedi'i rannu erbyn hyn, a bod Gwasanaethau Cyngor wedi'u cynnwys ym mhortffolio'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip – Jane Hutt AS, a'r holl faterion cynhwysiant ariannol eraill yn gyfrifoldeb y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AS a Hannah Blythyn AS.

4.2 Roedd AJ o'r farn ei bod yn briodol sôn am Fancio Cymunedol yn y fan yma oherwydd ei fod yn rhan o faniffesto arweinyddiaeth y Prif Weinidog newydd Mark Drakeford. Bydd Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith hwn, ynghyd â'r Banc Datblygu. Caiff y gwaith ei arwain gan y sector preifat a fydd yn paratoi asesiad llawn o'r farchnad a chynllun busnes â'r nod o gyflwyno cais i Fanc Lloegr yn ystod 2019. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd Banciau Cymunedol yn integreiddio'n llwyr â darparwyr presennol ac Undebau Credyd.

4.3 Gofynnwyd hefyd i AJ godi mater yn dilyn cyfarfod rhwng cydweithwyr Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cafwyd adborth bod rhai o'r hawlwyr yn cael problemau wrth sefydlu cyfrifon banc, o bosibl oherwydd nad yw Credyd Cynhwysol yn defnyddio rhifau Yswiriant Gwladol mewn rhai o'u dogfennau. Holodd AJ farn yr aelodau, yn enwedig GR a JB. Nid yw GR yn ymwybodol o'r mater hwn, mae'n ofynnol i hawlwyr agor cyfrifon banc sylfaenol, mae hyn yn ffurfio rhan o'r cymorth a gynigir ar hyn o bryd ac mae'n tybio y bydd y cymorth Help i Hawlio newydd yn gwneud yr un peth. Nid oedd JB yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau, ond gallai fod yn broblem i hawlwyr digartref oherwydd bod angen cyfeiriad. Ychwanegodd GR na ddylai fod yn broblem hyd yn oed bryd hynny i unrhyw sy'n ddigartref ac yn hawlio Credyd Cynhwysol oherwydd bod cyfleusterau eraill ar gael, gan gynnwys Cyfrifon y Swyddfa'r Post, er mwyn i bobl gael defnyddio eu budd-daliadau.

4.4 Darparodd PN ddiweddariad pellach ar ei faes gwaith. Bwriad y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl yw cynnwys y pedair cenedl yn bartneriaid cyfartal er mwyn llunio strategaeth gyd-gysylltiedig ar gyfer y DU ynghylch gallu ariannol, mae'r gwaith wedi dechrau eisoes i benderfynu pa ffurf fydd ar

lywodraethu yn y dyfodol. Ar 1 Ionawr 2019 rhoddwyd cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru am 12 cytundeb contract a weinyddwyd yn flaenorol gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. O 31 Mawrth ymlaen, bydd 7 o'r rhain yn dod i ben ac ar hyn o bryd mae swyddogion yn ystyried yr hyn y mae angen ei wneud mewn cysylltiad â'r contractau hynny. Bydd y gweddill yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn, ond mae swyddogion yn awyddus i roi trefniadau ar waith i roi sicrwydd i ymgynghorwyr y bydd cytundebau yn parhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

4.5 Cronfa Cyngor Sengl – Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio proses gwneud cais am gyllid grant i gefnogi darpariaeth cyngor i Ddinasyddion yr UE a'r gobaith oedd lansio ceisiadau i'r Gronfa Cyngor Sengl tua'r un amser ond oherwydd newidiadau Gweinidogol, mae hyn wedi'i ohirio. Mae hyn yn parhau a rhoddir diweddariadau pan fyddant ar gael.

4.6 Croesawodd AJ JJ Costello (JC) sydd wedi ymuno â Llywodraeth Cymru ar secondiad o Shelter Cymru. Gwahoddodd AJ JC i ymhelaethu ar ei rôl. Esboniodd JC y byddai'n canolbwyntio ar rwydweithiau cynghori ar les cymdeithasol ledled Cymru, nid oes unrhyw rwydweithiau presennol yn ymdrin â phob agwedd ar gyngor ar hyn o bryd. Mae'n gynnar yn y broses ar hyn o bryd wrth ystyried ei ffurf bosibl. Gallai fod â statws cenedlaethol, yn debyg i'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol, gyda rhwydweithiau rhanbarthol yn cydlynu cyllid a'i fwydo i'r rhwydwaith cenedlaethol. Mae'n bwysig bod yr holl randdeiliaid yn derbyn perchnogaeth y rhwydweithiau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon darparu swyddogaeth gydlynu ond bydd angen ymrwymiad gan randdeiliaid er mwyn iddo lwyddo. Bydd JC yn cwrdd â nifer o aelodau'r Grŵp Llywio yn ystod yr wythnosau nesaf ac mae'n bwriadu cynnal digwyddiad rhanddeiliaid ar ôl hynny.

4.7 Rhoddodd AJ y diweddariad canlynol ar ran John Mason o Adran Addysg Llywodraeth Cymru a fethodd â bod yn bresennol:

Ar 28 Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn gofyn barn ar gynigion i ddeddfu ar gyfer gweithredu'r trefniadau cwricwlwm newydd. Ym mis Ebrill 2019 bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu bod y trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd ar gael i bawb er mwyn cael adborth i helpu i'w fireinio. Yna, bydd gan ysgolion fynediad at y trefniadau cwricwlwm ac asesu terfynol o fis Ionawr 2020 ymlaen, a fydd yn caniatáu iddynt baratoi ar gyfer y cyflwyniad statudol ym mis Medi 2022 (h.y. dechrau addysgu'r cwricwlwm yn orfodol yn raddol). Y cynnig yw y bydd yn cael ei gyflwyno o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 7 yn 2022, gan ymestyn i Flwyddyn 8 yn 2023 ac yn y blaen tan iddo gael ei gyflwyno i Flwyddyn 11 yn 2026.

Mae'r cwricwlwm newydd yn galluogi plant a phobl ifanc i fodloni pedwar diben canlynol y cwricwlwm newydd - fel y nodwyd yn y ddogfen dyfodol llwyddiannus:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau;

- Cyfranwyr mentrus a chreadigol yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Dinasyddion Cymru a'r byd sy'n foesegol a galluog; ac
- Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

**5. Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol**

5.1 Diolchodd AJ yr aelodau am eu cyfraniadau at y Cynllun Cyflawni ac am yr adborth a ddarparwyd yn ystod y broses o ddrafftio'r Adroddiad a Rhagolwg Cynnydd Cynhwysiant Ariannol 2018. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 11 Rhagfyr ac mae'n darparu trosolwg cynhwysfawr o'r datblygiadau hyd yn hyn a'r heriau allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf.

5.2 Manteisiodd George Jones (GJ) ar y cyfle i atgoffa aelodau bod Comisiynydd Pobl Hŷn newydd yng Nghymru erbyn hyn, Heléna Herklots CBE, sydd wedi comisiynu ymgynghoriad yn holi barn ar sut i wneud Cymru'r lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn. Anogodd GJ yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad.

**Cam gweithredu:** Eryl Loring (EL) i anfon y ddolen i'r ymgynghoriad.

5.3 **Fframwaith Ansawdd Cyngor a Gwybodaeth** – Ar ddiwedd 2018, roedd Perchennog dwy Safon wedi cyflwyno ceisiadau cyflawn i gael tair Safon Ansawdd wedi'u hachredu i'r Fframwaith, ac mae dau arall yn cael cymorth i gyflwyno'u ceisiadau cychwynnol. Bydd y gwaith o gefnogi'r ail gyfran o Berchnogion Safon yn dechrau o fis Mawrth 2019 ymlaen. Mae MBARC wedi dechrau ar eu hail flwyddyn o waith ac yn bwriadu i fod wedi gweithio gyda 12 Safon Ansawdd erbyn diwedd 2019. Dylai hanner o'r rhain fod wedi'u hachredu'n llawn neu'n rhannol erbyn hynny hefyd.

5.5 O ran cyllido dyled ddatganoledig a ariannwyd yn flaenorol gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, atgoffodd LP yr aelodau y bydd sefydliadau fel Stepchange a'r Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol yn siarad â Fforwm Cymru ar 13 Chwefror ac y byddent yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau y dymunai aelodau eu codi. Hefyd, bydd sesiwn y bore yn cynnwys trafodaeth o amgylch y bwrdd gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) gydag Andrew Bailey Prif Weithredwr a fydd yn bresennol. Eto, os oes gan aelodau unrhyw gwestiynau, mae LP yn hapus i'w codi yn y cyfarfod.

5.6 Soniodd AJ am yr ymrwymiad yn y Cynllun Cyflawni i weithio gyda'r sector bancio, ac wrth i gau banciau fod yn fater pwysig i'r Gweinidog drwy'r amser, gofynnodd JB a fyddai'n gallu rhoi unrhyw sicrwydd ynglŷn â lliniaru effeithiau banciau'n cau. Cyfeiriodd JB at y cyhoeddiadau diweddar gan Santander a Barclays am gau canghennau. Mae ystadegau yn dangos bod llai o bobl yn ymweld â banciau, fodd bynnag mae angen gwasanaeth bancio o hyd ar rai pobl. Mae gan Barclays bartneriaeth â Swyddfa'r Post, a fyddai'n gweithredu fel cyfleuster bancio amgen ond mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r gwasanaeth. Cytunodd JB fod angen ystyried anghenion y cwsmeriaid mwyaf agored i niwed a'r hyn y gellir ei wneud i'w cefnogi. Mae Barclays yn cynnig

gwasanaeth amgen ac maent yn cefnogi cwsmeriaid i'w ddefnyddio. Dywedodd AJ ei fod yn dda clywed bod Barclays yn gwneud llawer o waith i hyrwyddo mynediad digidol. Cadarnhaodd JB fod y gweithdai y maent yn eu cynnal i helpu cwsmeriaid fynd at eu cyfrifon banc yn ddigidol yn llwyddiannus iawn.

5.7 Tynnodd GJ sylw at y ffaith nad yw pawb yn dymuno mynd ar-lein o reidrwydd, a bod angen cyfleuster amgen mewn amgylchedd sy'n ystyriol o oedran. Ailadroddodd JB mai Swyddfa'r Post yw'r cyfleuster delfrydol i ddisodli banciau sy'n cau, gyda rhwydwaith ehangach nag sydd gan unrhyw un o'r banciau, ond mae angen iddyn nhw gysoni eu gwasanaeth. Er nad yw hyn yn cael ei hyrwyddo, mae pob cyhoeddiad am gau cangen yn cyd-fynd ag ymgysylltiad â Swyddfa'r Post leol.

5.8 Gwnaeth HH sylwadau bod Cyngor ar Bopeth Conwy a Rhondda Cynon Taf wedi dirnad bod cau banciau'n broblem i fusnesau bach a chanolig, gan fod angen iddyn nhw gadw arian parod yn hirach nag y byddent fel arfer. Nododd JB fod busnesau ychydig yn wahanol ond bod dewisiadau eraill ar gael – mae Barclays Collect yn wasanaeth sy'n gyrru i fusnesau i gasglu eu henillion.

## 6. Dyfodol y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol

6.1 Esboniodd AJ er y cafodd y mater hwn ei godi yn y cyfarfod diwethaf, fe'i gohiriwyd tan fod y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl yn weithredol, ac wrth i'r newidiadau Gweinidogol ddigwydd. Cytunwyd bod gorgyffwrdd â Fforwm Gallu Ariannol Cymru y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, ac yn sgil yr angen i weithio'n agos gyda'r Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl yn y dyfodol, gallai fod yn fuddiol cyfuno'r ddau grŵp. Awgrymodd AJ godi'r mater yn Fforwm Cymru ar 13 Chwefror i geisio eu barn. Cytunodd LP y byddai llawer o'r un bobl yna felly byddai'n gyfle delfrydol i drafod.

6.2 Codwyd rhai pryderon ynghylch y Grŵp Llywio yn colli ei statws Gweinidogol ond ychwanegodd AJ y byddai'n rhaid cael sicrwydd y bydd y bobl briodol yn aros yn aelodau ac y bydd materion lefel uchel yn dal i gael eu trafod. Cadarnhaodd MH fod Gweinidogion yn mynychu grwpiau rhanddeiliaid allanol felly gellid goresgyn hyn. Dywedodd HH fod y Grŵp Llywio yn cynnig agenda ehangach a'i bod yn bwysig cadw lle i siarad â Llywodraeth Cymru am eu materion polisi pwysicaf. Ychwanegodd LP fod Fforwm Cymru hefyd yn cynnig y cyfle i drafod pethau nad yw grŵp Llywodraeth Cymru yn eu trafod, felly byddai'n bwysig cadw'r sesiynau hyn ar wahân.

6.3 Yn y cyfarfod diwethaf awgrymodd LH gyfuno'r Grŵp Cynhwysiant Digidol a'r Grŵp Cynhwysiant Ariannol, ond mae'n cydnabod y gorgyffwrdd â Fforwm Cymru. Aeth LH ymlaen i ddweud y byddai hi yn sicr yn croesawu cyfarfod undydd yn hytrach na chynnal pob un ohonynt ar ddiwrnodau gwahanol. Cytunodd AJ fod cysylltiadau â Chynhwysiant Digidol ond bod aelodaeth y grŵp yn debycach i Fforwm Cymru a phe byddai'r tri grŵp yn cyfuno y byddai hynny'n debygol o gynnwys gormod o aelodau.

6.4 Cytunwyd trafod y mater yng nghyfarfod nesaf Fforwm Cymru ar 13 Chwefror ac yna ei gyflwyno i Uwch Reolwyr a Gweinidogion y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl i'w gymeradwyo.

**Cam gweithredu:** Cyfuno Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru a Fforwm Gallu Ariannol Cymru y Gwasanaeth Cynghori Ariannol/ y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl i'w drafod yng nghyfarfod 13 Chwefror.

## 7. Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

7.1 Manteisiodd AJ ar y cyfle i ddiolch i Eryl Loring a fydd yn gadael yr Uned Cynhwysiant Ariannol yn fuan i symud i rôl newydd yn Llywodraeth Cymru.

7.2 Bydd yr aelodau yn cael gwybod am ddyddiad y cyfarfod nesaf yn dilyn canlyniad y trafodaethau ynghylch cyfuno yn Fforwm Cymru ar 13 Chwefror.